

2020 Rhif (Cy.)

2020 No. (W.)

TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

ROAD TRAFFIC, WALES

Gorchymyn Cefnffordd yr A55
(Cyffordd 11 (Llys y Gwynt) i
Gyffordd 12 (Tal-y-bont),
Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau,
Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro)
2020

The A55 Trunk Road (Junction 11
(Llys y Gwynt) to Junction 12 (Tal-
y-bont), Gwynedd) (Temporary
Prohibition of Vehicles, Cyclists &
Pedestrians) Order 2020

Gwnaed 3 Mawrth 2020

Made 3 March 2020

Yn dod i rym 8 Mawrth 2020

Coming into force 8 March 2020

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darn perthnasol o Gefnffordd yr A55, wedi eu bodloni y dylid gwahardd traffig ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud ar y ffordd neu gerllaw iddi.

The Welsh Ministers, as traffic authority for the relevant length of the A55 Trunk Road, are satisfied that traffic on specified lengths of the trunk road should be prohibited because of works proposed on or near the road.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(1), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

The Welsh Ministers, therefore, in exercise of the powers conferred upon them by section 14(1) and (4) of the Road Traffic Regulation Act 1984(1), make this Order.

Enwi, Cychwyn a Dehongli

Title, Commencement and Interpretation

1. Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Cyffordd 11 (Llys y Gwynt) i Gyffordd 12 (Tal-y-bont), Gwynedd) (Gwahardd Cerbydau, Beicwyr a Cherddwyr Dros Dro) 2020 a daw i rym ar 8 Mawrth 2020.

1. The title of this Order is The A55 Trunk Road (Junction 11 (Llys y Gwynt) to Junction 12 (Tal-y-bont), Gwynedd) (Temporary Prohibition of Vehicles, Cyclists & Pedestrians) Order 2020 and it comes into force on 8 March 2020.

2. Yn y Gorchymyn hwn:

2. In this Order:

ystyr "cerbyd esempt" ("*exempted vehicle*") yw unrhyw gerbyd sy'n cael ei ddefnyddio gan y gwasanaethau brys neu mewn cysylltiad â'r gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn;

"exempted vehicle" ("*cerbyd esempt*") means any vehicle being used by the emergency services or in connection with the works giving rise to this Order;

(1) 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan adran 1(1) o Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), ac Atodlen 1 iddi. Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 iddi, mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weiniogion Cymru o ran Cymru.

(1) 1984 c.27; section 14 was substituted by the Road Traffic (Temporary Restrictions) Act 1991 (c.26), section 1(1) and Schedule 1. By virtue of S.I.1999/672, and section 162 of, and paragraph 30(1) of Schedule 11 to, the Government of Wales Act 2006 (c.32), these powers are now conferred upon the Welsh Ministers in relation to Wales.

ystyr “cyfnod y gwaith” (“*works period*”) yw cyfnodau ysbeidiol sy’n dechrau am 20:00 o’r gloch ar 8 Mawrth 2020 ac sy’n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro ar gyfer pob cyfnod gwaith eu symud ymaith yn barhaol;

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw Cefnffordd yr A55 Caer i Fangor.

Gwaharddiadau

3. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

4. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, reidio unrhyw feic pedal ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

5. Ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, gerdded ar y darnau o’r gefnffordd a bennir yn yr Atodlen i’r Gorchymyn hwn.

Cymhwyso

6. Ni fydd y gwaharddiadau yn erthyglau 3, 4 a 5 yn gymwys ond ar yr adegau hynny ac i’r graddau hynny y bydd arwyddion traffig yn eu dangos.

Cyfnod Para’r Gorchymyn hwn

7. Bydd y Gorchymyn hwn yn para am 18 mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod Gweinidog yr Economi, Trafnidiaeth a Gogledd Cymru, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig

3 Mawrth 2020

Richard Morgan

Pennaeth Cynllunio, Rheoli Asedau a Safonau
Llywodraeth Cymru

YR ATODLEN

Y darn o gerbyttffordd tua’r dwyrain y gefnffordd sy’n ymestyn o’r adeiledd gorllewinol wrth Gyffordd 11 (Llys y Gwynt) hyd at ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont), gan gynnwys y darn o’r ffordd ymuno tua’r dwyrain wrth Gyffordd 11.

“the trunk road” (“*y gefnffordd*”) means the A55 Chester to Bangor Trunk Road;

“works period” (“*cyfnod y gwaith*”) means intermittent periods commencing at 20:00 hours on 8 March 2020 and ending when the temporary traffic signs for each period of works are permanently removed.

Prohibitions

3. No person may, during the works period, drive any vehicle, other than an exempted vehicle, on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

4. No person may, during the works period, ride any pedal cycle on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

5. No pedestrian may, during the works period, proceed on the lengths of the trunk road specified in the Schedule to this Order.

Application

6. The prohibitions in articles 3, 4 and 5 apply only during such times and to such extent as indicated by traffic signs.

Duration of this Order

7. The maximum duration for this Order is 18 months.

Signed under authority of the Minister for Economy, Transport and North Wales, one of the Welsh Ministers.

Dated the

3 March 2020

Richard Morgan

Head of Planning, Asset Management & Standards
Welsh Government

SCHEDULE

The length of the eastbound carriageway of the trunk road that extends from the western structure at Junction 11 (Llys y Gwynt) to the centre-point of Junction 12 (Tal-y-bont), including the length of the eastbound entry slip road at Junction 11.

Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin y gefnffordd sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at yr adeiledd gorllewinol wrth Gyffordd 11 (Llys y Gwynt), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 12.

The length of the westbound carriageway of the trunk road that extends from the nosing of the westbound exit road at Junction 12 (Tal-y-bont) to the western structure at Junction 11 (Llys y Gwynt), including the westbound entry road at Junction 12.

**GORCHYMYN CEFNFFORDD YR A55
(CYFFORDD 11 (LLYS Y GWYNT) I
GYFFORDD 12 (TAL-Y-BONT), GWYNEDD)
(GWAHARDD CERBYDAU, BEICWYR A
CHERDDWYR DROS DRO) 2020**

Mae Gweinidogion Cymru wedi gwneud Gorchymyn o dan adran 14 o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984. Mae angen y Gorchymyn er mwyn gwneud gwaith ar gefnffordd yr A55, neu gerllaw iddi, rhwng Cyffordd 11 (Llys y Gwynt) a Chyffordd 12 (Tal-y-bont), ger Bangor, Gwynedd.

Effaith y Gorchymyn yw gwahardd dros dro bob cerbyd (ac eithrio'r rheini a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys ac ar gyfer y gwaith), beiciwr a cherddwr rhag mynd ar y darnau o gefnffordd yr A55 a ddisgrifir yn yr Atodlen i'r Hysbysiad hwn. Disgrifir y llwybr arall yn yr Atodlen honno hefyd.

Disgwylir y bydd y gwaharddiadau dros dro yn dod i rym ar 8 Mawrth 2020 ac yn weithredol yn ysbeidiol dros nos (20:00 – 06:00 o'r gloch) hyd 20 Mawrth 2020 neu hyd nes y caiff yr arwyddion traffig dros dro eu symud ymaith yn barhaol.

Dim ond yn ystod y cyfnod a bennir uchod y disgwylir i'r Gorchymyn fod yn weithredol. Er hynny, bydd yn parhau'n ddilys am gyfnod o 18 mis ar y mwyaf rhag ofn y bydd angen ailamserlennu'r gwaith neu wneud gwaith canlyniadol neu waith arall. Bydd hysbysiad ymlaen llaw am unrhyw newidiadau i'r amseroedd a'r dyddiadau yn cael ei arddangos cyn gwneud unrhyw waith a ailamserlennir.

Gellir gweld copi o'r Gorchymyn a'r Hysbysiad ar wefan [Llywodraeth Cymru](https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd) ar <https://llyw.cymru/gorchymynion-ffyrdd>.

Gellir cael copi print bras o'r Hysbysiad hwn oddi wrth: Y Gangen Orchymynion, Trafnidiaeth, Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd CF10 3NQ.

J SADDLER
Trafnidiaeth
Llywodraeth Cymru

**THE A55 TRUNK ROAD (JUNCTION 11 (LLYS
Y GWYNT) TO JUNCTION 12 (TAL-Y-BONT),
GWYNEDD) (TEMPORARY PROHIBITION OF
VEHICLES, CYCLISTS & PEDESTRIANS)
ORDER 2020**

The Welsh Ministers have made an Order under section 14 of the Road Traffic Regulation Act 1984 which is necessary to undertake works on or near the A55 trunk road between Junction 11 (Llys y Gwynt) and Junction 12 (Tal-y-bont), near Bangor, Gwynedd.

The effect of the Order is to temporarily prohibit all vehicles (other than those being used by the emergency services and for the works), cyclists and pedestrians from proceeding on the lengths of the A55 trunk road described in the Schedule to this Notice. The alternative route is also described therein.

The temporary prohibitions are expected to come into force on 8 March 2020 and operate intermittently overnight (20:00 – 06:00 hours) until 20 March 2020 or until the temporary traffic signs are permanently removed.

Although the Order is only expected to operate during the period specified above it will remain valid for a maximum period of 18 months, as a contingency, should the work need to be rescheduled or consequential or other work is required. Advance notice of any changes to times and dates will be displayed before any rescheduled work.

A copy of the Order and Notice can be viewed on the Welsh Government's website at <https://gov.wales/road-orders>.

A copy of this Notice in larger print can be obtained from Orders Branch, Transport, Welsh Government, Cathays Park, Cardiff CF10 3NQ.

J SADDLER
Transport
Welsh Government

YR ATODLEN

Gwahardd Cerbydau Dros Dro a Llwybr Arall

1. Y darn o gerbyttfordd tua'r dwyrain yr A55 sy'n ymestyn o'r adeiledd gorllewinol wrth Gyffordd 11 (Llys y Gwynt) hyd at ganolbwynt Cyffordd 12 (Tal-y-bont), gan gynnwys y darn o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 11.

2. Y darn o gerbyttfordd tua'r gorllewin yr A55 sy'n ymestyn o drwyniad y ffordd ymadael tua'r gorllewin wrth Gyffordd 12 (Tal-y-bont) hyd at yr adeiledd gorllewinol wrth Gyffordd 11 (Llys y Gwynt), gan gynnwys y ffordd ymuno tua'r gorllewin wrth Gyffordd 12.

Y llwybr arall ar gyfer traffig sy'n teithio tua'r dwyrain o Gyffordd 11 yw mynd tua'r gogledd ar yr A5 i Gylchfan Landygái a thua'r dwyrain ar y ffordd sirol drwy Dal-y-bont a Than-y-lôn i ailymuno â'r A55 wrth Gyffordd 12: i'r gwrthwyneb ar gyfer cerbydau sy'n teithio tua'r gorllewin o Gyffordd 12.

Gwaherddir pob llwyth annormal rhag defnyddio'r llwybr dargyfeiriol pan fydd y gefnffordd ar gau a gwneir trefniadau iddynt barcio mewn ardaloedd dynodedig cyn yr ardal waith.

SCHEDULE

Temporary Prohibition of Vehicles & Alternative Route

The length of the A55 eastbound carriageway that extends from the western structure at Junction 11 (Llys y Gwynt) to the centre-point of Junction 12 (Tal-y-bont), including the length of the eastbound entry slip road at Junction 11.

The length of the A55 westbound carriageway that extends from the nosing of the westbound exit road at Junction 12 (Tal-y-bont) to the western structure at Junction 11 (Llys y Gwynt), including the westbound entry road at Junction 12.

The alternative route for eastbound traffic from Junction 11 is via the northbound A5 to Llandygai roundabout and eastbound county road through Tal-y-bont and Tan-y-lôn to rejoin the A55 at Junction 12: vice versa for westbound traffic from Junction 12.

All abnormal loads will be prohibited from using the diversionary route during trunk road closures and provision will be made for them to park up at designated areas in advance of the works area.